Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LIC22-27

# Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

2022

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG43697, ISBN digidol 978-1-80391-359-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol Llywodraeth Cymru

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021 – 2026) yn amlinellu ymrwymiadau clir ar gyfer gwella bywydau pobl Cymru. Mae'n cyflwyno gweledigaeth o Gymru lle'r ydym yn cydweithio i gyflawni'r dyfodol cynaliadwy yr ydym i gyd am ei weld. Mae egwyddorion cyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth galon gwaith y Llywodraeth hon i gyflawni Cymru gryfach, wyrddach a thecach.

Rydym angen i bob dinesydd, cymuned, grŵp a busnes yng Nghymru i weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.

Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cynaliadwy ar gyfer cenhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol yn seiliedig ar amgylchedd naturiol iach a sylfaen asedau wydn. Rydym yn rhagweld sector dŵr a dŵr gwastraff gwydn yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a'r amgylchedd, yn integredig, yn gynaliadwy a gwydn, wrth ddarparu gwerth i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Bydd gwaith y sector yn grymuso cymunedau bywiog ac yn helpu diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol a drysorir.

Wedi'i osod yng nghyd-destun yr heriau digynsail a'r cyfleoedd a wynebwn, a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, mae hwn yn disodli'r datganiad a gyhoeddwyd yn 2017[1].

## Y fframwaith deddfwriaethol

O dan adran 2B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2014), gall Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd gyhoeddi datganiad yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion strategol i Ofwat eu dilyn wrth gyflawni ei swyddogaethau perthnasol yn ymwneud â chwmnïau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Mae'n rhaid i Ofwat gyflawni'r swyddogaethau hynny un unol ag unrhyw ddatganiad a gyhoeddwyd o dan adran 2B. Wrth wneud hynny, rydym yn disgwyl i Ofwat:

- Ymgorffori'r amcanion a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn yr SPS drwy ei waith yn rheoleiddio cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
- Amlinellu sut mae'r gweithgareddau perthnasol yn ei flaenraglen waith yn cyflawni yn erbyn disgwyliadau a blaenoriaethau strategol y llywodraeth.
- Amlinellu sut mae ei benderfyniadau mawr yn ystyried amgylchiadau penodol Cymru ac yn gyson â disgwyliadau a blaenoriaethau'r llywodraeth, er enghraifft, wrth sefydlu'r fethodoleg ar gyfer adolygiadau prisiau, cyhoeddi

[1] https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

penderfyniadau drafft a therfynol neu gynigion ar gyfer newid i’r fframwaith rheoleiddio.

- Bod â fframwaith effeithiol i ddwyn cwmnïau i gyfrif o fewn ei gylch gwaith statudol.

## Amcanion strategol: sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat gyflawni ei swyddogaethau

Rydym yn disgwyl i Ofwat ddatblygu’r fframwaith rheoleiddio fel y mae’n berthnasol i Gymru ar sail tystiolaeth gadarn berthnasol yng nghyd-destun Cymru. Pan fo’n briodol, dylai fabwysiadu dull gwahanol ar gyfer cwmnïau a reoleiddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn gymesur â maint buddsoddiad, cwmni a sylfaen cwsmeriaid. Dylai Ofwat roi ystyriaeth i’r modd y gall alluogi neu gymell cwmnïau i gyfrannu at gyflawni polisïau a strategaethau perthnasol y llywodraeth.

Dylai Ofwat roi sylw dyledus i wahaniaethau ym mholisïau a chyfreithiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pan fo rhwymedigaethau newydd ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru. Dylai Ofwat annog a chymell cwmnïau i gyfrannu at gyflawni polisïau a strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru yn y tymor byr, y tymor canolig a’r hirdymor wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn garreg sylfaen ganolog i’r dirwedd polisi yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i Ofwat roi ystyriaeth i’r nodau a’r ffyrdd o weithio a bennwyd yn y Ddeddf, a chydnabod ymdrechion cwmnïau dŵr i gydymffurfio â’r Ddeddf[2].

Dylai Ofwat ymgysylltu’n dryloyw a rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid yng Nghymru ynglŷn â datblygu ei fethodoleg adolygu prisiau, fframwaith rheoleiddio, polisïau a blaenoriaethau.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn pennu’r egwyddor na ddylai’r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i Ofwat a chwmnïau i gydymffurfio â hyn wrth gyflawni’u gwaith. Mae’r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i weithredu safonau’r Gymraeg ar gyfer cwmnïau dŵr. Ein huchelgais fel Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy’n gallu mwynhau siarad Cymraeg a defnyddio’r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050[3].

Wrth gyflawni ei swyddogaethau perthnasol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru’n disgwyl i Ofwat roi ystyriaeth lawn i’r amcanion strategol canlynol:

### Cynllunio a chyflawni ar gyfer y tymor hir

Hyrwyddo ffocws priodol ar fynd i’r afael â risgiau hirdymor, diogelu gwydnwch a pherfformiad hirdymor, a cheisio sicrhau bod amseru buddsoddi yn arwain at degwch sy’n pontio’r cenedlaethau. Rydym yn disgwyl i Ofwat geisio mynd i’r afael â risgiau, heriau a bygythiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy’n codi

---

[2] https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html
[3] https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/amdanom-ni/mesur-y-gymraeg

dros y tymor hir, gan gynnwys drwy egwyddorion cynllunio addasol ac i ystyried cynigion i fynd i'r afael â'r materion hyn ar sail aml gynlluniau rheoli asedau, gan gynnwys buddsoddi heb anfanteision.

**Cyflawni fframwaith rheoleiddio cydlynus a thryloyw**

Fframwaith sydd, o'i gymryd yn ei gyfanrwydd, yn gymesur, effeithiol, tryloyw ac effeithlon yn galluogi cwmnïau, buddsoddwyr, a chwsmeriaid i gynllunio ar gyfer y tymor hir.

**Mabwysiadu dull ataliol**

Mynd ar drywydd dull ataliol drwy annog cwmnïau i ddeall ac ystyried sut gellid mynd i'r afael â phroblemau yn eu tarddiad.

**Cynnwys ac ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid**

Sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn annog cwmnïau i gynnwys ac ymgysylltu'n ystyrlon â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ar ddeilliannau tymor hir, blaenoriaethau, a chyflymder cyflawni, ac yn ystyried eu barn. Lle bo'n briodol, dylai cwmnïau gael eu hannog i ymgysylltu â chwsmeriaid i addysgu, deall a profi eu hanghenion a'u blaenoriaethau, cyd-greu atebion a chyd-gyflawni deilliannau, er enghraifft, lle gall ymddygiad cwsmeriaid helpu i fynd i'r afael â heriau gweithredol.

**Cydweithredu**

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld cydweithredu effeithiol er mwyn hyrwyddo effaith ac effeithiolrwydd rheoleiddio i'r eithaf, i ddysgu o ddulliau cydweithredu sydd eisoes ar waith ac i annog gweithio amlasiantaeth 'Tîm Cymru' rhwng cwmnïau dŵr a thrydydd partïon perthnasol fel awdurdodau lleol, partneriaethau dalgylch, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, tirfeddianwyr preifat, Iechyd Cyhoeddus Cymru a grwpiau cymunedol.

Lle bo'n briodol, dylid manteisio ar gyfraniadau trydydd parti priodol yn enwedig lle mae rhai eraill yn rhannu cyfrifoldeb.

Rydym yn cydnabod y rhan y gall egwyddorion cystadleuaeth a marchnadoedd ei chwarae weithiau i godi safonau perfformiad ac ysgogi effeithlonrwydd; er enghraifft, cystadleuaeth gymharol drwy feincnodi. Fodd bynnag, nid yw hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad yn y diwydiant dŵr yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac nid yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi cyflwyno cystadleuaeth lle byddai gweithgarwch newydd-ddyfodiaid yn lleihau atebolrwydd cyffredinol cwmnïau o ran cyflawni gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid a'r amgylchedd; na lle byddai'n bygwth uniondeb ac effeithlonrwydd y broses o reoli'r system ddŵr; na lle na ellir dangos tystiolaeth glir y byddai'n fuddiol i gwsmeriaid.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi darnio'r diwydiant dŵr yng Nghymru, ac mae hyrwyddo cystadleuaeth ymhellach yn annymunol.

## Ffocws ar Ddeilliannau

Dylai Ofwat fabwysiadu ymagwedd yn seiliedig ar ddeilliannau at gyflawni gweithgareddau cwmnïau dŵr, polisïau perthnasol Llywodraeth Cymru, a chymell y defnydd cynaliadwy, integredig ac effeithlon o adnoddau naturiol. Dylai'r fframwaith rheoleiddio annog cwmnïau dŵr i gyflawni gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol priodol ac a gefnogir gan gwsmeriaid/rhanddeiliad y tu hwnt i'w rhwymedigaethau statudol sylfaenol tra'n cyflawni'u swyddogaethau. Mae darparu gwasanaethau craidd yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant yr holl sefydliadau allweddol yn y sector dŵr yng Nghymru i wella llesiant y cymunedau y maent yn eu gwasanaethau a'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo. Dylai'r broses reoledddio, felly, annog gweithredu sy'n cyflawni'r budd mwyaf posibl i amryfal ysgogwyr.

## Gwerth gorau ar gyfer cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd

Dylai Ofwat herio cwmnïau i gyflawni gwerth am arian i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd. Dylai Ofwat herio cwmnïau i ddangos bod eu cynlluniau'n dderbyniol, yn fforddiadwy, ac yn cynnig gwerth gorau, gan roi ystyriaeth i'w cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid yn y dyfodol. Dylent hefyd herio cwmnïau i ddarparu cymorth cynaliadwy ac effeithiol i gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu bil dŵr.

Dylai Ofwat herio cwmnïau i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid yn seiliedig ar gymariaethau rhwng cwmnïau yng Nghymru ac yn Lloegr, ac ar draws sectorau eraill lle bo'n briodol, wrth ganiatáu'n briodol ar gyfer gwahaniaethau yn amgylcheddau gweithredol a chyfreithiol cwmnïau yng Nghymru, ac ystyried amrywiaethau yn y blaenoriaethau sydd gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

Dylai Ofwat herio cwmnïau i gyflawni atebion gwerth gorau drwy eu fframwaith rheoleiddio. Dylai Ofwat annog buddsoddi sy'n ymateb i amryfal ysgogwyr (er enghraifft, mynd i'r afael â gollyngiadau, iechyd asedau, afliwiad, a phlwm ar yr un pryd) neu fuddsoddi sydd ag amryfal fuddion, ac sy'n ystyried deilliannau a gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach o fewn yr atebion.

Rydym yn disgwyl i Ofwat asesu cynigion cwmnïau fel pecyn, gan gymell cwmnïau i ddatblygu pecyn buddsoddi i gyflawni gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd, ar gost dderbyniol o ystyried yr heriau presennol a heriau'r dyfodol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

## Rheoleiddio'n seiliedig ar dystiolaeth

Dylai Ofwat herio cwmnïau i ddarparu tystiolaeth glir a chadarn i fod yn sail i'w cynlluniau buddsoddi. Trwy dystiolaeth a gwaith ymchwil cadarn, rydym yn disgwyl i Ofwat herio cwmnïau i arloesi a dod o hyd i ffyrdd newydd, mwy effeithlon, o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Gall tystiolaeth gynnwys casglu, rhannu a dadansoddi data ar y cyd i wella dealltwriaeth o heriau ac addasrwydd atebion.

### Arloesedd

Dylai Ofwat herio cwmnïau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i'r cwsmeriaid a'r amgylchedd yn fwy effeithlon, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, monitro priodol, data agored ac ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu cronfa arloesi Ofwat fel llwybr i ariannu ymchwil pellach a datblygu ymatebion arloesol.

Gan ystyried yr holl amcanion hyn, dylai Ofwat sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio'n cyflawni gwerth gorau ar gyfer cwsmeriaid, cymunedau, a'r amgylchedd. Wrth wneud penderfyniadau, dylai Ofwat ystyried buddion ac anfuddion cymdeithasol ac amgylcheddol a bod yn glir ynghylch pa ddewisiadau amgen sydd wedi'u hystyried a'u gwrthod. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gallai fod cyfaddawdau. Rhaid ystyried lefelau gwydnwch, y buddsoddiad sydd ei angen, graddfa uchelgais a fforddiadwyedd cwsmeriaid.

Dylai Ofwat annog cwmnïau dŵr yng Nghymru i roi ystyriaeth i egwyddorion ac arferion caffael sy'n gyson â Datganiad Polisi Caffael Cymru, gan adlewyrchu potensial y diwydiant dŵr i chwarae rhan bwysig i alluogi twf gwyrdd a chefnogi'r economi sylfaenol yng Nghymru, a'i rôl fel cyflogwr lleol mawr, contractiwr a datblygwr sgiliau ac arbenigedd y gweithlu[4].

Dylai cyflawni ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru gael ei feincnodi ar draws cwmnïau yng Nghymru a Lloegr ac ar draws sectorau eraill lle bo'n briodol. Dylai pennu'r man cychwyn hwn adlewyrchu gwahaniaethau yn amgylcheddau gweithredu a chyfreithiol cwmnïau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, a chyfrif am amrywiadau mewn blaenoriaethau cwsmeriaid a rhanddeiliaid.

## Blaenoriaethau strategol ar gyfer Ofwat

### Yr Argyfwng Hinsawdd a'r Argyfwng Natur

Mae'r argyfwng hinsawdd yn her fyd-eang sy'n mynnu gweithredu ar frys. Daeth y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) i'r casgliad bod cynnydd pellach yn y tymheredd yn anochel. Po fwyaf a wnawn i leihau allyriadau nawr, y gorau fydd ein siawns o gyfyngu ar yr effeithiau dinistriol rydym eisoes yn eu gweld yng Nghymru ac o amgylch y byd. Yn unol â'r cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, mae'n rhaid i hwn fod yn ddegawd o weithredu yng Nghymru. Mae angen i ni wneud mwy o gynnydd yn y deng mlynedd nesaf nag y gwnaethom yn y tri deg o flynyddoedd diwethaf[5].

Fel yr amlinellwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i degwch. Credwn, drwy weithio gyda'n gilydd a gweithredu ar y cyd, y gallwn gyflawni Cymru gryfach, decach a gwyrddach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaeth y Senedd darged sero net 2050 yn ddeddfwriaeth.

---

[4] https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/3/1/1615195521/datganiad-polisi-caffael.pdf
[5] https://llyw.cymru/pwyllgor-newid-hinsawdd

Rydym yn croesawu'r ymrwymiadau gan y cwmnïau dŵr. Mae ymrwymiad carbon sero net Dŵr Cymru Welsh Water ar gyfer allyriadau cwmpas 1-3 erbyn 2040, ac mae Hafren Dyfrdwy, fel rhan o Severn Trent Group, wedi ymrwymo i gyflawni sero net ar gyfer allyriadau cwmpas 1-2 erbyn 2030.

Rydym yn disgwyl i Ofwat:

- Annog cwmnïau i fabwysiadu arferion ac ymddygiad sy'n gweithredu fel patrwm enghreifftiol o weithio ac yn galluogi newid yn gadarnhaol i gyflawni cymdeithas carbon sero net yng Nghymru.
- Annog cwmnïau i ddatblygu cynlluniau cadarn, clir ar gyfer sut maent yn bwriadu mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd, a chyflawni'u hymrwymiadau sero net, gan gyfrannu at Gymru sero net, a chydnabod yr angen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd nawr, gan gynnwys sut fyddant:
    - yn ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi a chwsmeriaid i chwarae eu rhan;
    - yn cyflawni gwerth am arian i gwsmeriaid; a
    - yn cyflawni newid sylweddol sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio ar draws allyriadau carbon gweithredu ac allyriadau carbon sydd wedi gwreiddio.
- Annog cwmnïau i fabwysiadu egwyddorion economi gylchol wrth gyflawni'u gweithgareddau craidd, lle ceir cyn lleied â phosibl o wastraff, mae cynhyrchion a deunyddiau'n cael eu hailddefnyddio, eu hailweithgynhyrchu neu'u hatgyweirio, mae deunyddiau wedi'u hailgylchu yn disodli deunyddiau crai lle bo modd, ac mae systemau naturiol yn cael eu gwella gydag ailgylchu maethynnau.
- Annog cwmnïau i sicrhau bod eu gweithgareddau mewn ardaloedd penodedig sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, hyd yn oed lle mae'r buddiolwr yn Lloegr, yn cyfrannu at ymrwymiad sero net Llywodraeth Cymru.

Mae natur yn dirywio'n fyd-eang ar gyfraddau digynsail yn hanes dyn, ac mae cyfradd difodiant rhywogaethau yn cyflymu. Mae adroddiadau diweddar yn dynodi bod colli bioamrywiaeth a dirywiad cyfalaf naturiol/gwasanaethau ecosystemau yn parhau yng Nghymru, er gwaethaf rhai o'r ymyriadau cadarnhaol a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw rhyng-gysylltioldeb yr argyfyngau natur a hinsawdd erioed wedi bod yn fwy eglur: drwy gyfyngu ar newidiadau i'r hinsawdd drwy leihau allyriadau, byddwn yn cynnal bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithio'n dda, a fydd yn eu tro yn darparu atebion naturiol ac yn adeiladu gwydnwch i'r risg hinsawdd.

Ym Mehefin 2021, datganodd y Senedd argyfwng natur, gan gredu y dylai fod cydraddoldeb rhwng camau a gymerwn i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r rheiny a gymerir i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod natur a'r hinsawdd ar agenda pob gwasanaeth cyhoeddus a phob busnes yn y sector preifat, ac yn integreiddio gweithredu cadarnhaol dros natur mewn mwy o'n gweithgarwch economaidd.

Rydym yn disgwyl i Ofwat:

- Herio cwmnïau i ddangos sut mae ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau wedi'u hymgorffori ar draws gweithgareddau, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau.

**Amgylchedd**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi fframwaith cyflawni ar waith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n cyflwyno egwyddorion i ganolbwyntio ar ddull mwy integredig o reoli adnoddau naturiol, gan edrych ar wraidd problemau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion, sy'n gwella amgylchedd Cymru ac yn cyflawni amryfal fuddion amgylcheddol[6].

Mae Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesiad o sut mae Cymru'n gwneud o ran rheoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, ac yn amlinellu cyfleoedd ar gyfer cyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy[7].

Mae'r diwydiant dŵr yn sefyll ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill wrth gyfrannu at lygredd amgylcheddol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cwmnïau dŵr mewn sefyllfa dda i fod yn gynullyddion o fewn dalgylchoedd. Dylai dysgu o ddulliau a phartneriaethau rheoli dalgylchoedd gael eu nodi a dylai cwmnïau weithredu arnynt.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr fodloni gofynion pob deddfwriaeth amgylcheddol. Dylai cwmnïau dŵr, pan gânt gefnogaeth gan gwsmeriaid/rhanddeiliaid, a lle mae'n cyflawni gwerth da am arian, fynd y tu hwnt i'r gofynion deddfwriaethol hyn hefyd a chyflawni buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach wrth gyflawni'u swyddogaethau.

Rydym yn disgwyl i Ofwat:

- Herio cwmnïau i newid i ymagwedd sy'n seiliedig ar ddalgylch, yn cael ei harwain gan ddeilliannau, gydag atebion partneriaeth (gan gynnwys cwsmeriaid) seiliedig ar natur sy'n mynd i'r afael â gwraidd problemau. Lle mae ansicrwydd ynglŷn â gallu atebion seiliedig ar natur i gyflawni'r deilliant gofynnol, dylid deall y risgiau, a lle bo modd dylid rhoi mesurau lliniaru ar waith wrth gynnal y buddion bwriadedig, gan sicrhau bod mesurau diogelu cymesur ar waith ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd. Dylai Ofwat roi blaenoriaeth i'r mathau hyn o atebion, lle bo'n briodol. Dylai cwmnïau egluro pam mai'r opsiynau a ddewiswyd yw'r rhai gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd, a pha ddewisiadau amgen sydd wedi cael eu hystyried a'u gwrthod.

---

[6] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-trosolwg.pdf
[7] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=cy

- Annog cwmnïau i ystyried bygythiadau sy’n dod i’r amlwg a allai effeithio ar eu gweithgareddau craidd e.e. ymyrwyr endocrin, cynhyrchion fferyllol, microblastigion a “chemegau am byth” fel y’u gelwir e.e. PFAS. Cefnogi cydweithio gyda rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys academyddion, i gyflawni hyn ac annog cwmnïau i rannu’u data a’u dealltwriaeth.
- Herio cwmnïau i ddangos sut fyddant yn cyflawni perfformiad amgylcheddol gwell yn barhaus gyda sylw arbennig i gyflawni’r mesurau a amlinellwyd yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, gan fynd i’r afael â Rhesymau dros Beidio â Chyflawni statws Da, yn ogystal â methiannau mewn safleoedd gwarchodedig (e.e. ffosfforws).
- Annog cwmnïau i ddatblygu cynlluniau sy’n rhoi ystyriaeth i ddisgwyliadau cwsmeriaid a rhanddeiliaid o ran niwed ac effaith.
- Annog cwmnïau i archwilio a hyrwyddo cyfleoedd i gydweithredu a chyd-ariannu gyda sectorau a sefydliadau eraill yn ogystal â chyfleoedd cyllid gwyrdd i gyflawni gwerth gorau i gwsmeriaid.
- Annog a chymell y defnydd cynaliadwy ac effeithlon o adnoddau dŵr, gan gynnwys drwy annog cwmnïau i leihau gollyngiadau a defnydd cwsmeriaid. Gallai hyn gynnwys gosod targedau heriol ond heriau y gellir eu cyflawni ar gyfer lleihau defnydd aelwydydd fesul pen o’r boblogaeth, a gollyngiadau, a gweithredu strategaethau ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac annog newid ymddygiad ymhlith cwsmeriaid.

**Gwydnwch**

Gwydnwch yw’r gallu i ragweld tarfu, ymdopi â tharfu ac adfer o darfu. Mae’n mynnu bod cwmnïau yn rhagweld tueddiadau ac amrywioldeb er mwyn cynnal gwasanaethau i bobl a diogelu’r amgylchedd naturiol, nawr ac yn y dyfodol.

Mae’r bygythiadau presennol a bygythiadau’r dyfodol i’r sector dŵr yn debygol o gynyddu o ran amlder, difrifoldeb a chymhlethdod. Mae’r rhain yn amrywio o effeithiau’r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur, newid demograffig a chymdeithasol, a halogyddion sy’n dod i’r amlwg i ddatblygiadau a tharfu technolegol. Mae darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff gwydn, dibynadwy a chynaliadwy yn wyneb y bygythiadau hyn yn hanfodol i bobl, yr economi, a’r amgylchedd. Mae cwsmeriaid yn disgwyl gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy nawr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, mae oddeutu 80,000 o ddinasyddion yng Nghymru yn defnyddio cyflenwad dŵr preifat. Mae newid hinsawdd yn cynyddu breguster y dinasyddion hyn i ddioddef prinder dŵr.

Mae’r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru yn cefnogi uchelgais y llywodraeth hon i fod yn genedl gydnerth ac i gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a’r buddion a ddarparant.

Mae gan gwmnïau dŵr, ynghyd ag awdurdodau rheoli risg eraill, rol a dyletswyddau statudol ar gyfer rheoli perygl llifogydd Mae'r rhain yn cynnwys rheoli peryglon llifogydd o systemau carthffosydd a achosir gan orlaw.

Mae seiberddiogelwch yn rhan graidd o wydnwch cwmni dŵr. Mae'r datblygiadau cynyddol mewn technoleg ac ehangiad seiberofod yn fyd-eang yn newid y ffordd rydym yn byw, yn gweithio ac yn cyfathrebu, ac mae'n trawsnewid y systemau critigol rydym ni'n dibynnu arnynt. Gall graddfa a chyflymder y newidiadau hyn ddigwydd yn gyflymach na'n normau cymdeithasol a chyfreithiau, gan greu cymhlethdod, ansefydlogrwydd a risg ddigynsail.

Rydym yn disgwyl i Ofwat:

- Herio'r cwmnïau i sicrhau bod dealltwriaeth o wydnwch gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff nawr ac yn y dyfodol, a'u bod yn cael eu rheoli drwy gynlluniau cadarn ac addasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylai cynlluniau cwmnïau gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd i ymateb i'r dystiolaeth orau sydd ar gael, risgiau sy'n dod i'r amlwg, tystiolaeth a pholisïau cwmnïau ar risgiau penodol fel diogelwch tomenni glo a breguster cyflenwadau dŵr preifat.

- Annog cydweithredu rhwng cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i bennu'r lefel briodol o wydnwch i gymunedau a'r amgylchedd yng Nghymru. Dylai cwmnïau gydweithredu â darparwyr seilwaith eraill, er enghraifft, y sector ynni a'r sector cemegion, er mwyn deall eu cyd-ddibyniaethau a chynllunio ar gyfer canlyniadau rhaeadrol tarfu. Dylai cwmnïau gydweithredu ar ddatblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMPs) a Chynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs) yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru[8].

- Annog defnyddio atebion seiliedig ar natur ledled dalgylch cyfan, a chynlluniau draenio cynaliadwy, lle bo'n briodol.

- Annog cwmnïau i ddeall gwydnwch eu gweithlu a'u cadwyni gyflenwi mewn perthynas â gwasanaethau dŵr a gwastraff dŵr nawr ac yn y dyfodol.

- Annog cwmnïau i ymgysylltu â chwsmeriaid ynglŷn â'r lefel risg y maen nhw'n agored iddi a grymuso cwsmeriaid i gyfrannu at eu gwydnwch eu hunain a gwydnwch cymunedau, megis drwy newid ymddygiad.

- Herio cwmnïau i gyflawni mwy o wydnwch i lifogydd ar gyfer eu seilwaith a'u gwasanaethau eu hunain, a lle bo'n briodol, darparu buddion ehangach i'w cwsmeriaid a'r gymuned ehangach wrth wneud hynny.

- Gweithio gyda phartïon eraill, er enghraifft, drwy Gynghrair Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith (RAPID) i archwilio unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio i reoli risgiau gwydnwch.

[8] https://llyw.cymru/cynllun-rheoli-adnoddau-dwr-canllawiau & https://llyw.cymru/egwyddorion-arweiniol-ar-gyfer-cynlluniau-rheoli-draenio-dwr-gwastraff-dwmps

- Annog cwmnïau i ystyried yr angen am fuddsoddiad rhagweithiol mewn seiberddiogelwch ac ymgymryd ag uwchraddiadau angenrheidiol, er enghraifft, y Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) 2018. Gan weithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, dylai cwmnïau ddatblygu cynlluniau i wella'u galluoedd seiber er mwyn bod yn seiberddiogel ac yn wydn, a bod yn fwy parod ar gyfer bygythiadau a risgiau seiberofod sy'n esblygu'n gyflym.

- Pennu gofyniad ar gwmnïau i ystyried egwyddorion arwain WRMP Llywodraeth Cymru ac arweiniad RAPID sy'n datgan y dylai trosglwyddiadau newydd o Gymru ond gael ystyriaeth os yw lefel y gwasanaeth ym mharth adnoddau Cymru (ac unrhyw barthau eraill yng Nghymru yr effeithir ganddynt) yn gyfwerth neu'n uwch na'r parth adnoddau sy'n derbyn. Dylid rhoi ystyriaeth i wydnwch y parth, gan gynnwys effeithiau a chyfleoedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

**Iechyd Asedau**

Mae iechyd asedau gwael yn straen cronig lle mae asedau'n dirywio i bwynt lle bo risg methiannau (sy'n effeithio ar wasanaeth i gwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach) yn fwy na goddefiant risg cwmni. Mae rheolaeth dda ar asedau cwmnïau yn elfen hanfodol o gyflawni gwydnwch yn y sector dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru.

Efallai mai dim ond yn y tymor hir y daw effaith iechyd asedau ar wasanaeth i gwsmeriaid a'r amgylchedd yn amlwg.

Yn y cyfnod 2017 i 2019, roedd y lefel cydymffurfio â'r safon ar gyfer haearn ar ei gwaethaf yng Nghymru, gyda methiannau ar gyfer manganîs ymhlith yr uchaf o'r holl baramedrau hefyd. Mae haearn, sy'n gallu bod yn ddangosydd iechyd asedau, yn gyfrifol hefyd am niferoedd uchel o gysylltiadau afliwiad, a nifer o ddigwyddiadau gydag ansawdd dŵr yfed, gyda goblygiadau cysylltiedig i hyder cwsmeriaid yn eu cyflenwad dŵr.

Rydym yn disgwyl i Ofwat:

- Herio cwmnïau i fonitro iechyd eu hasedau a darparu cynlluniau blaengar i fynd i'r afael ag unrhyw faterion dros y tymor hir. Dylai cwmnïau ddangos dealltwriaeth glir o iechyd eu hasedau presennol, gan gynnwys cyd-ddibyniaethau, tueddiadau yn y tymor hir, a sut mae hyn yn effeithio ar lefelau gwydnwch yn gyffredinol.

- Annog cwmnïau i gynllunio ar gyfer darfodiad asedau o fewn eu rhwydweithiau ac uwchraddiadau asedau angenrheidiol o dan Gyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng 2022.

- Ystyried anghyfartalwch sy'n pontio'r cenedlaethau wrth werthuso buddsoddiad cynnal cyfalaf a cheisio diogelu buddiant cwsmeriaid y dyfodol yn ogystal â chwsmeriaid presennol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod lwfansau gwariant ar gyfer cynnal cyfalaf yn ddigonol, gan ystyried y dystiolaeth sydd ar

gael y gallai gofynion y dyfodol fod yn wahanol i lefelau presennol a hanesyddol yn sgil, er enghraifft, effaith newid hinsawdd ar asedau.

**Cwsmeriaid a Chymunedau**

Mae’r cwmnïau dŵr yng Nghymru yn cyfrannu at yr economi sylfaenol yng Nghymru ac yn cyflenwi gwasanaethau hanfodol sy’n chwarae rhan hollbwysig yn ein bywydau bob dydd. Fel cyflogwyr mawr, maent yn hanfodol i’n heconomi leol gan eu bod yn ddarparwyr allweddol hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth, ac mae’r adnoddau a’r arbenigedd ganddynt hefyd i chwarae rhan arweiniol yn cydweithredu gydag awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, busnesau a chymunedau i ddiogelu ein hiechyd a’r amgylchedd.

Rydym yng nghanol argyfwng costau byw digynsail, sy’n cael ei yrru gan brisiau ynni. Fel llywodraeth, rydym yn benderfynol o wneud popeth a allwn i gynorthwyo’r rheiny sy’n fregus ar hyn o bryd a chymryd y camau angenrheidiol i feithrin gwydnwch yn ein cymunedau. Rydym yn annog rhanddeiliaid i wneud yr un peth.

Mae adolygiad annibynnol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr o fforddiadwyedd dŵr yn ystyried y gellir ystyried bod aelwydydd incwm isel sy’n gwario mwy na 5% o’u hincwm (ar ôl costau tai) yn wynebu tlodi dŵr a bod angen help arnynt gyda’u bil. Er bod cymorth ariannol ac ymarferol ar gael, mae rhwystrau rhag ei gael yn aml – gan gynnwys ymwybyddiaeth, iechyd, ymddiriedaeth, cymhlethdod, llythrennedd a lleoliad. Gallai cynorthwyo cwsmeriaid ariannol fregus yn effeithlon ac effeithiol ddileu rhwystrau a ysgogir gan fforddiadwyedd biliau i fuddsoddi mewn cyflawni deilliannau amgylcheddol, cymdeithasol a gwydnwch.

O safbwynt fforddiadwyedd ehangach, rhwng 1989 a 2010, cynyddodd biliau dŵr mewn termau real. Fodd bynnag, er 2015, mae biliau wedi gostwng mewn termau real. Yn y dyfodol, mae yna lu o ysgogwyr sydd â’r potensial i effeithio ymhellach ar dlodi dŵr a fforddiadwyedd biliau yn gyffredinol. Mae’r rhain yn cynnwys cyflawni’r blaenoriaethau sydd wedi’u hamlinellu yn y datganiad hwn.

Mae busnesau, elusennau neu sefydliadau’r sector cyhoeddus sy’n cael eu gwasanaethu gan gyflenwr dŵr yng Nghymru ar hyn o bryd ond yn gymwys i newid manwerthwyr dŵr os ydynt yn defnyddio mwy na 50 miliwn o litrau o ddŵr bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori ar godi’r trothwy cymhwysedd.

Rydym yn disgwyl i Ofwat:

- Ystyried fforddiadwyedd i’r holl gwsmeriaid a fforddiadwyedd i gwsmeriaid sy’n cael anhawster talu eu bil dŵr wrth ddylunio’n fframwaith rheoleiddio.

- Hwyluso penderfyniadau prisiau sy’n darparu gwerth am arian i gwsmeriaid heddiw ac yfory. Dylid ymgysylltu’n ystyrlon â chwsmeriaid ynglŷn â fforddiadwyedd a derbynioldeb biliau yn y dyfodol.

- Annog darparu tariffau cymdeithasol tryloyw, hygyrch a chynaliadwy i’r rheiny sy’n cael anhawster talu, gan adlewyrchu barnau cyffredinolrwydd cwsmeriaid ac annog rheolaeth ragweithiol ar ddyled cwsmeriaid. Dylai Ofwat ymgysylltu â chwmnïau i sicrhau bod tariffau cymdeithasol yn gynaliadwy yn y tymor hir ac yn wydn i siociau economaidd.

- Cydweithredu gyda chwmnïau, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) a Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion perthnasol o adolygiad fforddiadwyedd CCW mewn ffordd sydd o fudd i gwsmeriaid cwmnïau sy’n gweithredu’n gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru.

- Ar gyfer cwsmeriaid busnes, gweithio gyda chwmnïau, Market Operator Services Ltd (MOSL) a Llywodraeth Cymru i sicrhau pontio hwylus wrth i ni geisio cynyddu’r trothwy cymhwysedd ar gyfer cystadleuaeth fanwerthu.

- Parhau i adolygu ei ymagwedd at wasanaethau datblygwyr i sicrhau ei bod yn addas i’r diben i gefnogi datblygiad economaidd yng Nghymru.

**Atodiad: Crynodeb o ddyletswyddau Ofwat**

Mae adrannau 2 a 3 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod nifer o ddyletswyddau statudol ar Weinidogion Cymru ac Ofwat.

Prif ddyletswyddau Ofwat (fel yr amlinellwyd yn adran 2) yw cyflawni ei swyddogaethau perthnasol yn y ffordd yr ystyria sydd orau, a gyfrifwyd i:

- hyrwyddo'r amcan defnyddwyr i ddiogelu buddiannau defnyddwyr[9], lle bynnag y bo'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol;
- sicrhau bod swyddogaeth pob ymgymerwr[10] wedi'u cyflawni'n briodol
- sicrhau bod ymgymerwyr yn gallu ariannu cyflawni'u swyddogaethau'n briodol, yn benodol, drwy sicrhau enillion rhesymol ar eu cyfalaf;
- sicrhau bod trwyddedeion (cwmnïau â thrwyddedau cyflenwi dŵr neu drwyddedau carthffosiaeth) yn cyflawni'u gweithgareddau a'u swyddogaethau trwyddedig yn briodol; a
- hyrwyddo'r amcan gwydnwch i sicrhau gwydnwch hirdymor systemau cyflenwi dŵr a dŵr gwastraff ymgymerwyr, a sicrhau eu bod yn cymryd camau i'w galluogi, yn y tymor hir, i fodloni'r angen am gyflenwadau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff.

Yn amodol ar y rhain, mae gan Ofwat ddyletswyddau eilaidd i:

- hyrwyddo cynildeb ac effeithlonrwydd gan ymgymerwyr yn eu gwaith;
- sicrhau nad oes unrhyw ffafriaeth neu wahaniaethu amhriodol yn cael ei ddangos gan ymgymerwyr wrth bennu taliadau; sicrhau nad oes unrhyw ffafriaeth neu wahaniaethu amhriodol yn cael ei ddangos gan ymgymerwyr mewn perthynas â darparu gwasanaethau ganddyn nhw'u hunain neu ymgymerwyr eraill neu gan drwyddedeion;
- sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu pan fydd ymgymerwyr yn gwerthu tir;
- sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu mewn perthynas ag unrhyw weithgareddau anrheoleiddiedig gan ymgymerwyr; a
- chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

Gall Ofwat roi ystyriaeth hefyd i fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â chyfleustodau eraill. Wrth arfer unrhyw rai o'i bwerau neu ddyletswyddau yn unol â'r

---

[9] Diffinnir defnyddwyr yn a2(5A) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel defnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol, a "buddiannau defnyddwyr" yw eu buddiannau mewn perthynas â'r cyflenwad dŵr drwy system gyflenwi ymgymerwr dŵr […] a darparu gwasanaethau carthffosiaeth.
At ddibenion y ddyletswydd hon, mae a2(2C) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn amlinellu rhestr anghyflawn o grwpiau penodol y bydd Ofwat yn rhoi ystyriaeth i'w buddiannau, sy'n cynnwys: unigolion sy'n anabl neu'n dioddef o salwch cronig, unigolion o oed pensiwn, unigolion ag incymau isel, unigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a chwsmeriaid nad ydynt yn gymwys i newid cyflenwyr.
[10] Hynny yw, cwmni sy'n dal penodiad fel ymgymerwr dŵr a/neu garthffosiaeth.

dyletswyddau hynny a amlinellwyd uchod, rhaid i Ofwat roi ystyriaeth i egwyddorion arfer rheoleiddio gorau.

Mae gan Ofwat a'r cwmnïau dŵr ddyletswyddau amgylcheddol a hamdden cyffredinol hefyd yn adran 3 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd). Yn amodol ar y dyletswyddau hyn yn adran 2, maent fel a ganlyn:

- gwarchod a gwella ymhellach harddwch naturiol a chadwraeth fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig a hyrwyddo arbed dŵr;
- rhoi ystyriaeth i ddymunoldeb diogelu a gwarchod adeiladau, safleoedd a gwrthrychau o ddiddordeb archaeolegol, pensaernïol neu hanesyddol; ac
- ystyried unrhyw effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar harddwch neu amwynder unrhyw ardal wledig neu drefol neu ar unrhyw fflora, ffawna, nodweddion, adeiladau, safleoedd neu wrthrychau o'r fath.

Yn amodol ar y rhain, mae gan Ofwat ddyletswyddau i:

- roi ystyriaeth i ddymunoldeb gwarchod ar gyfer y cyhoedd unrhyw ryddid mynediad i ardaloedd coetir, mynyddoedd, gweundir, rhostir, twyndir, clogwyni neu flaendraeth a mannau eraill o harddwch naturiol;
- roi ystyriaeth i ddymunoldeb cynnal i'r cyhoedd argaeledd unrhyw gyfleuster ar gyfer ymweld â neu archwilio unrhyw adeilad, safle neu wrthrych o ddiddordeb archaeolegol, pensaernïol neu hanesyddol; a
- ystyried unrhyw effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar unrhyw gyfryw ryddid mynediad neu ar argaeledd unrhyw gyfleuster o'r fath.